# CYFLEOEDD GWIRFODDOLI MANWERTHU YN HOSBIS TŶ'R EOS HOSBIS Y CARTEF

**Diolch yn fawr am ddangos diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Hosbis T Tr Eos.**

Mae gwirfoddolwyr yn rhan annatod o dîm yr hosbis ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynllunio i roi cipolwg i chi ar y cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol sydd ar gael gennym.

Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos



# MANWERTHU
## CYFLEOEDD GWIRFODDOLI

**Nid yw pob rôl wedi'i rhestru, ac os oes gennych chi gymhwyster proffesiynol neu sgil arall a allai fod o fudd i'r hosbis yn eich barn chi, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Gwirfoddoli ar 01978 316800 neu anfon neges e-bost at volunteering@nightingalehouse.co.uk.**

**O ran ymrwymiad, rydym fel arfer yn chwilio am shifft pedair awr ar unrhyw ddiwrnod penodol, unwaith yr wythnos, ond mae hyn yn hyblyg a gellir trafod eich argaeledd yn y cyfweliad.**

**Mae meini prawf recriwtio hanfodol eraill yn cynnwys:**

- **Mae pob rôl yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).**
- **Dau eirda; gall y rhain fod yn eirda proffesiynol neu eirda cymeriad.**

### Gwirfoddolwr Manwerthu
Yn ein siopau, chi yw wyneb yr hosbis. Byddwch yn rhan o dîm hwyliog a bywiog sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wneud i'n cwsmeriaid deimlo bod croeso iddyn nhw a sicrhau bod digon o stoc a nwyddau ar gael yn y siop. Efallai y byddwch hefyd yn gweini wrth y til, derbyn rhoddion gan gwsmeriaid a hyrwyddo Loteri'r Hosbis a Digwyddiadau Codi Arian. Mae gennym siopau lliwgar ac awyrog yn yr Wyddgrug, Bwcle, Wrecsam, Bwras, Whitchurch a Chroesoswallt.

### Gwirfoddolwr yr Ystafell Sortio
Yn y rôl hon, byddwch yn mynd ati'n weithredol i ddidoli stoc a roddwyd a sicrhau ei fod yn addas i'w werthu. Mae gwybodaeth dda am frandiau dillad yn ddefnyddiol iawn ond nid yw'n hanfodol. Gallai dyletswyddau eraill gynnwys glanhau cyffredinol, prisio a hongian rhoddion cyn iddynt fynd allan i'w hailwerthu. Mae hon yn rôl weithredol iawn a gall gynnwys rhywfaint o godi.

### Cynorthwyydd eBay
Ydych chi'n deall technoleg? Ydych chi'n gyfarwydd ag eBay? Oes gennych chi lygad craff am eitemau anarferol a chasgladwy? Os felly, dyma'r rôl wirfoddoli i chi! Mae Hosbis Tŷ'r Eos wedi lansio tudalen gwerthu eBay ei hun ac mae wastad angen gwirfoddolwyr i'n helpu i lwyddo! Mae'r swydd hon wedi'i lleoli yn ein siop ar Regent Street.

### Gwirfoddolwr Cyfryngau
Ydych chi'n hoffi ffilmiau, yn mwynhau chwarae gemau cyfrifiadurol, wrth eich bodd â cherddoriaeth neu efallai y byddai'n well gennych chi hen lyfr da?
Mae Hosbis Tŷ'r Eos yn chwilio am wirfoddolwyr sydd â phrofiad a gwybodaeth yn y sector cyfryngau i helpu i gefnogi ein siop ar Regent Street.

### Gwirfoddolwr Profi Dyfeisiau Cludadwy (PAT)
Helpwch ni i sicrhau ein bod yn gallu ailwerthu eitemau trydanol yn ddiogel sydd wedi cael eu rhoi'n garedig i ni gan ein cefnogwyr. Ar ôl cael eich hyfforddi, byddwch yn cynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) ar nwyddau trydanol a roddir. Mae hyn yn gyfuniad o archwilio gweledol a ffisegol trylwyr ac yna profi'r teclyn gyda Phrofwr PAT hawdd ei ddefnyddio a fydd yn cael ei ddarparu.





***"Rwy'n mwynhau sortio bagiau, cwrdd â phobl, a gwneud fy ngorau glas i godi arian ar gyfer elusen mor wych."***

- Gwirfoddolwr Hosbis

**I gael mwy o wybodaeth am y rolau gwirfoddoli, cysylltwch â:**

Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

**01978 316800**
**NIGHTINGALEHOUSE.CO.UK**